Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Datblygiad Lleol dan Arweiniad y Gymuned
# Canllawiau Grant

Dylid darllen y nodiadau hyn yn llawn cyn cwblhau'r Ffurflen Gais.
Dylid cysylltu â'r tîm i drafod syniad y prosiect a chymhwysedd ar gyfer y gronfa cyn llenwi'r ffurflen.

Cyfeiriwch yn ôl at y Canllawiau hyn wrth lenwi'r ffurflen gais ar gyfer ei chyflwyno.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
datblygu.lleol@conwy.gov.uk
Ela Owen: 01492 576 674
Angharad Fenner: 01492 577 824

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) wedi bod yn llwyddiannus yn ariannu prosiect Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (CFfG).

1.2 Mae'r prosiect Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yn rhoi cyfle i grwpiau ymgeisio am arian refeniw ar gyfer prosiectau ac astudiaethau dichonoldeb, a fydd o fudd iddyn nhw a'u cymunedau.

## 2. Pwy all ymgeisio?

2.1 Gall y mathau canlynol o sefydliadau wneud cais am gyllid, os yw eu prosiectau yn yr ardal gymwys:

2.1.1 Grwpiau cymunedol/gwirfoddol
2.1.2 Cynghorau Tref / Cymuned
2.1.3 Mentrau cymdeithasol, os ydynt yn gweithredu ar sail dielw (gan gynnwys undebau credyd)
2.1.4 Cydweithfeydd
2.1.5 Cwmnïau cymdeithasol
2.1.6 Mentrau sy'n perthyn i'r gymuned
2.1.7 Cwmnïau budd cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu
2.1.8 Elusennau
2.1.9 Busnesau preifat

2.2 Mae'n rhaid i ymgeiswyr gael cyfansoddiad a chyfrif banc o leiaf.(*cyfansoddiad - heblaw am fusnesau preifat)

## 3. Ardal Gymwys

3.1 Mae'n rhaid i'r prosiect gael ei ddarparu o fewn Sir Conwy.

## 4. Pa gymorth grant sydd ar gael?

4.1 Mae ymgeiswyr yn gallu ymgeisio am uchafswm o £10,000.00 o arian refeniw o'r prosiect hwn.

4.2 Gallai hwn gael ei ddefnyddio fel cyfraniad tuag at brosiect mwy

4.3 Isafswm gwerth y prosiect yw £1,000.00

4.4 Argymhellir arian cyfatebol. Os bydd yr ymgeisydd yn dangos arian cyfatebol byddant angen dangos sut y bydd hyn yn cael ei ariannu

4.5 Yr isafswm cost ar gyfer eitem unigol yw £100.00

4.6 Os yw'r ymgeisydd wedi cofrestru at ddibenion TAW, mae'n rhaid i'r holl gostau fod yn rhai NET.

4.7 Dylai ymgeiswyr nad ydynt wedi cofrestru ar gyfer TAW nodi costau gros

## 5. Costau Cymwys

5.1 Mae enghreifftiau o gostau refeniw yn cynnwys:

5.1.1 Costau staff (gan gynnwys cyflog, Yswiriant Gwladol a phensiwn)

5.1.2 Costau teithio sy'n gysylltiedig â'r prosiect a chynhaliaeth

5.1.3 Costau deunyddiau / eitemau bach / asedau nad ydynt yn barhaol

5.1.4 Costau marchnata a chyhoeddusrwydd

5.1.5 Costau cyfranogwyr hyfforddiant e.e. costau teithio, gofal plant

## 6. Costau nad ydynt yn gymwys

6.1 Mae'r canlynol yn gostau nad ydynt yn gymwys ar gyfer y prosiect:

6.1.1 Costau cyfalaf (mae gwariant cyfalaf yn cyfeirio at gyllid a ddefnyddiwyd i gaffael, datblygu neu uwchraddio asedau ffisegol)

6.1.2 Cyllid ôl-weithredol e.e. ar gyfer costau sydd wedi eu talu eisoes

6.1.3 Costau rhedeg a chynnal a chadw

6.1.4 Costau staffio craidd

6.1.5 Alcohol

6.1.6 Costau wrth gefn, benthyciadau, cyfraniadau neu log

6.1.7 Gweithgareddau gwleidyddol neu grefyddol

6.1.8 Gweithgareddau i godi arian/gwneud elw.

6.1.9 TAW y gallwch ei hawlio'n ôl

6.1.10 Rhwymedigaethau statudol

6.1.11 Cost eitem unigol llai na £100

## 7. Mae prosiectau angen bodloni un neu fwy o'r amcanion isod

7.1 Bydd y prosiect yn cefnogi a datblygu cymhwysedd ar draws cymunedau Conwy. Y meysydd gweithgaredd y bydd y prosiect yn canolbwyntio arnynt, er mwyn cyflawni'r uchod yw:

- galluogi cyrff eraill i ddarparu gwasanaethau anstatudol
- goresgyn costau byw
- argyfwng newid hinsawdd
- mynediad digidol (corfforol a thrwy sgiliau cymunedol)
- mynediad at gludiant

## 8. Y broses ymgeisio

8.1 Dylid cysylltu â'r tîm i drafod syniad y prosiect a chymhwysedd ar gyfer y gronfa cyn llenwi'r ffurflen

8.2 Mae'n bwysig sicrhau bod eich ffurflen gais wedi'i llenwi'n iawn a bod yr holl ddogfennaeth ategol yn cael ei chynnwys ar adeg ei chyflwyno. Mae hyn yn cynnwys

- Cyfansoddiad (os yw hynny'n briodol)
- 3 mis o ddatganiadau banc
- Cyfrifon archwiliedig *
- Amcangyfrifon / dyfynbrisiau gwreiddiol ar gyfer prosiect (2 ddyfynbris ar gyfer eitemau sy'n costio llai na £10,000, 3 dyfynbris ar gyfer unrhyw beth £10,000 a mwy)
- Cadarnhad o gyllid cyfatebol
- Cadarnhad o berchnogaeth neu ganiatâd perchennog i gynnal prosiect
- Cadarnhad o **Ganiatâd Cynllunio a/neu Reoliadau Adeiladu (os yw'n berthnasol) gan gynnwys 'Newid Defnydd'

*Os nad yw'r ymgeisydd wedi bod yn masnachu yn ddigon hir i gyfrifon fod ar gael, bydd angen o leiaf 3 mis o ddatganiadau banc

** Mae cynnig cyllid yn amodol ar dderbyn y gymeradwyaeth / caniatâd perthnasol

8.3 Gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig a gwiriadau gwybodaeth.

8.4 Nodwch nad yw'r broses gymeradwyaeth yn dechrau nes derbynnir yr holl ddogfennaeth ofynnol.

8.5 Peidiwch â chynnal unrhyw wariant ar y prosiect nes byddwch wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig o gymeradwyaeth grant

8.6 Lle gofynnir i chi wneud hynny, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl i egluro'r prosiect, ei fanteision a'i effaith.

8.7 Darllenwch yr holl wybodaeth a chanllawiau a ddarperir yn ofalus, ac yn benodol nodwch a gwnewch yn siŵr eich bod yn deall pob agwedd ar y ffurflen gais a'r canllawiau sy'n ymwneud â dyfarnu'r Grant Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned

## 9. Prosesu Eich Cais

9.1 Ar ôl derbyn eich cais llawn, bydd swyddogion prosiect yn:-

9.1.1 Gwirio bod yr holl fanylion a ddarperir mewn trefn ac os na, yn rhoi gwybod i chi pa wybodaeth bellach sy'n ofynnol

9.1.2 Cwblhau adroddiad argymhelliad

## 10. Rhoi gwybod am y penderfyniad

10.1 Mae paneli grant yn cwrdd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn

10.2 Cewch wybod ar ffurf e-bost beth fydd y penderfyniad

10.3 Os byddwch yn llwyddiannus fe'ch hysbysir o'r swm a gynigir ac unrhyw amodau penodol sy'n ymwneud â'r dyfarniad.

10.4 Wedi'i atodi i'r llythyr bydd y contract 'Telerau ac Amodau' y bydd yn rhaid i chi gadw ato

10.5 Rhaid llofnodi a dychwelyd y ddogfen hon o fewn 14 diwrnod o gael y cynnig cyllid

## 11. Proses Hawlio

11.1 Bydd pob hawliad yn cael ei anfon at datblygu.lleol@conwy.gov.uk

11.2 Dylech gynnwys y canlynol i gyd:

- Anfonebau a dalwyd ar gyfer pob pryniant (Dylai anfonebau gael eu cyfeirio i grŵp)
- Cyfriflen banc yn dangos taliad ar gyfer pob pryniant

11.3 Unwaith y bydd yr holl wybodaeth wedi'i derbyn:

- Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn anfon Ffurflen Hawlio electronig at yr ymgeisydd (drwy e-bost)
- Ymgeisydd i lofnodi a dychwelyd y ffurflen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn electronig
- Bydd arian yn cael ei ryddhau i Gyfrif Banc ymgeiswyr drwy daliad BACS.

11.4 Mae'n rhaid i bob prosiect gael ei gwblhau a hawlio erbyn 30 Tachwedd 2024.

## 12. Rheoli Cymhorthdal

12.1 Bydd y grantiau yn cael eu dyfarnu dan Gymorth Ariannol Lleiaf (MFA)

12.2 Mae Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn caniatáu awdurdodau cyhoeddus i ddyfarnu cymorthdaliadau gwerth isel (hyd at £315,000)

12.3 Ni ellir rhoi MFA ychwanegol i fuddiolwr sydd wedi cyrraedd eu trothwy MFA yn barod.

12.4 Fel rhan o'r broses cais, bydd arnoch angen:

12.4.1 Datgan eich dealltwriaeth bod y cyllid a gynigir yn gymorthdal dan MFA

12.4.2 Datgan trothwy MFA a nodwyd yn adran 36(1) y Ddeddf yn fwy na'r fenter sy'n derbyn y cymorth arfaethedig.

12.4.3 Wrth wneud eich datganiad, dylech ystyried bod holl gymhorthdal (gan gynnwys grantiau) a ddaeth i law drwy'r cynlluniau canlynol yn ystod y 3 blynedd ariannol flaenorol.

De Minimis, 'Special Drawing Rights' (SDR), De Minimis y DU, 'Small Amounts of Financial Assistance' (SAFA, yr enw presennol), Small Amounts of Funding Exemption (SAFE) a 'Minimal Financial Assistance' (MFA).

Gallai enghreifftiau gynnwys grantiau cysylltiedig Ardrethi Annomestig, Cronfa Cadernid Economaidd, Grant Cychwyn, Cronfa Gweithwyr Llawrydd, Cronfa Awdurdod Lleol yn ôl Disgresiwn, Grant Cymorth i Fusnesau Conwy.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL